

Newyddion da – efallai!

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn gweld llygedyn gwyrdd o obaith...

RWY'N ofni bod fy erthyglau wythnosol yn llawn 'och a gwa'. Hyfrydwch a rhyddhad, felly, yw cyhoeddi newyddion da.

Yn aml iawn wrth drafod cynaliadwyedd a newid hinsawdd, mi glywch chi'r gri yma: "Be ydi'r ots be ydan ni'n ei wneud yng Nghymru - China a'r Unol Daleithiau sy'n bwysig – a dydyn nhw'n gwneud dim!"

Mae yna sylwedd i'r cymal cynta' yna. Nid yn unig fod poblogaeth China dros 1,300 miliwn o'i gymharu â 3 miliwn ohonom ni, ond China erbyn hyn sy'n gollwng y ganran fwyaf o nwyon tŷ gwydr y byd.

Mwy hyd yn oed nag America er bod allyrion y pen yn China yn llawer llai na'r Unol Daleithiau ac o fewn blewyn i'r cyfartaledd byd-eang.

Dyna pam fod cyhoeddiad diweddar Llywodraeth China mor anghyffredin o bwysig – eu bod nhw'n bwriadu sicrhau uchafbwynt eu hallyrion erbyn 2025 neu yn y flwyddyn honno.

Maen nhw hefyd am ostwng eu hallyrion am bob pwynt o'u cynnyrch economaidd - GDP - gostwng o tua 45% rhwng 2005 a 2020.

NEWIDIADAU POLISI CHINA'N ALLWEDDOL

Maen nhw hefyd yn rhagweld y bydd cyfanswm eu nwyon tŷ gwydr y flwyddyn yn tyfu rhwng 15 a 20% yn y degawd nesaf i tua 8-9 tunnell y pen. Mae hynny, hyd yn oed, yn llawer llai na'n 17 tunnell ni, yn ein gwlad fach honedig wyrdd.

Mae sôn yn y wasg bod Comisiwn Datblygu a Diwygio China eisiau i uchafbwynt yr allyrion gael ei gyrraedd erbyn 2016 er bod amryw'n amau a fydd hynny'n bosib.

Mae China hefyd yn bwriadu sefydlu marchnad garbon i roi pwysau ar gwmnïau i fod yn garbon effeithlon. Yn anffodus, mae'r farchnad gyffelyb yn Ewrop wedi methu am fod y dognau'n rhy hael a'r dirwasgiad yn rhy ddrwg.

Mae lle i gredu bod y newid ym mholisiâu China'n allweddol os ydi dynoliaeth am osgoi newid hinsawdd drychinebus.

Yn naturiol, rhaid bod yn ofalus cyn gorfoleddu – haws dweud na gwneud hyd yn oed yn China - ond gobeithio ein bod wedi cyrraedd trobwynt hanesyddol.

Yn rhyfedd iawn, efallai ei bod yn haws gorfodi'r newidiadau angenrheidiol yn China nag mewn gwlad ddemocrataidd lle mae lleisiau'r amheuwyr, y gwrthwynebwyr a'r NIMBYs yn groch.

Er mwyn cyrraedd y nod, bydd rhaid i China, yn ôl y gwybodusion, symud yn fwriadus a chyflym o ynni glo i ynni niwclear, gwynt a haul - a datblygu ceir trydan.

Y gobaith wedyn yw gwella ansawdd aer y trefi (a lladd llai o lowyr!). Eisoed mae China ar flaen y gad gyda chynhyrchu unedau PV a melinau gwynt ac mae mwy o fuddsoddi'n debygol.

Mae newidiadau yn America hefyd gydag allyrion CO₂ wedi lleihau 13% ers 2007 o ganlyniad i'r cynnydd mewn nwy ffracio rhad sy'n disodli glo yn eu pwerdai trydan.

ANGEN DILYN DENMARK A'R ALMAEN

Ond mae angen nodyn o rybudd ac amheuaeth. Mae'r Unol Daleithiau'n ceisio allforio'u glo'n rhad i eraill, gan gynnwys gwledydd Prydain.

Felly, dydi hynny ddim yn ostyngiad ar lefel y blaned gyfan ac mae yna amheuon sylweddol am y niwed amgylcheddol sy'n cael ei wneud gan ffracio a faint o fethan sy'n dianc yn ystod y broses.

Gobeithio y cawn weld newidiadau tebyg yng Nghymru ac y byddwn yn dilyn ein cefndryd yn Nenmarc a'r Almaen i ddatblygu ein hadnoddau adnewyddadwy. Braff oedd gweld ar wefan WWF Cymru bod mwy na 23,000 o unedau PV ar doeau Cymru erbyn hyn.

Da o beth fyddai clywed gan ddarllenwyr **Golwg** am eu profiadau gydag ynni adnewyddadwy. A gafwyd rhwystrau gan gynllunwyr neu adrannau Cyfoeth Naturiol Cymru neu a oedd cwmnïau trydan yn codi prisiau afresymol am gysylltu â'r grid?

A yw potensial Cymru'n cael ei goli?

[Mehefin 6, 2013]